






Mae Mentro wedi'i lunio i baru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n barod i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiaid sy'n chwilio am gyfle i gychwyn ffermio yn annibynnol. Mae'n rhoi arweiniad i bobl ar y ddwy ochr trwy'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i ganfod partner busnes posib. Mae pecyn integredig sy'n cynnwys hyfforddiant, mentora, cyngor arbenigol a chefnogaeth busnes yn darparu'r wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i gynorthwyo'r rhai sy'n cymryd rhan i gyflawni eu hamcanion.

Gallai'r camau allweddol ar y **daith Mentro** gynnwys y canlynol...



- \* Mae cyfranogwyr gweithredol yn cyfeirio at y rheini sydd wedi'u cofrestru'n llawn drwy gwblhau proffil Mentro neu sydd ar hyn o bryd yn cael cyngor ar wneud-cynllun busnes i sefydlu cyd-fenter.
- \* Roedd yr erwau o dir dan sylw yn cynnwys arwynebedd tir yr holl Ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru ar y rhaglen, gan gynnwys tir sy'n cael ei hysbysebu, tir sydd â Cheisiwr posibl wedi'i neilltuo ar ei gyfer, tir sy'n rhan o gyd-fenter a gwblhawyd a thir y rheini sydd yng nghamau cynnar y broses.
- \* Mae darparwyr sy'n cynnig cyfle yn cyfeirio at dirfeddianwyr sy'n hysbysebu eu cyfle'n gyhoeddus ar hyn o bryd.
- \* Mae rhai sydd wedi cael eu paru yn cynnwys y rheini sy'n datblygu cyd-fenter newydd gyda darpar bartner busnes a hefyd y rheini sydd wedi cwblhau'r broses ac wedi sefydlu cyd-fenter newydd.



## YN EISIAU!

**Ffermwr brwd, galluog a chymwys, wedi ymrwymo i ffermio cynaliadwy, ar gyfer cyfle i ffermio cyfran yng Ngorllewin Cymru**



Angela a David Colledge.

Mae tîm Mentro ar hyn o bryd yn chwilio am ffermwr brwd, galluog a chymwys a fydd yn darparu'r paru priodol – partner busnes gyda'r cyfuniad cywir o sgiliau, gwybodaeth ac uchelgais.

Mae perchnogion yr hyn sydd heddiw yn fferm organig 575 erw ar y ffin rhwng Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, sydd â buches o dros 70 o wartheg sugno Simmental a'u lloi, yn dymuno canolbwyntio ar eu busnes gosod gwyliau llewyrchus. A allech chi fod yr unigolyn y maent yn gobeithio y bydd yn camu ymlaen?

Gadawodd David Colledge, cyfrifydd, a'i wraig Angela – y ffermwraig bellach – ogledd Llundain i symud i Gwarmacwydd, ger Clunderwen, ym 1985. Fe brynon nhw'r tŷ cerrig hanesyddol gyda nifer o adeiladau allanol cerrig traddodiadol, gan ddechrau gyda 106 erw o dir isel wedi'i ffensiō'n wael a phrynu 50 o wartheg godro Friesian.

*“Rydym wedi mynd heibio'r oedran ymddeol arferol, ond yn dal i fod yn weithgar a gyda'r fenter dwristiaeth yn cymryd mwy o'n hamser, rydym yn teimlo bod lle i gydweithio â phartner busnes newydd egniol sydd â ffocws, er mwyn gwneud y mwyaf o botensial y fferm.”*

*“Fel teulu, rydyn ni i gyd yn teimlo'n barod i gymryd cam yn ôl o ffermio o ddydd i ddydd ac i gyflawni hynny, mae angen gwaed newydd, a phersbectif newydd gan rywun sydd mor ymroddedig â ni nid yn unig i ffermio organig ond hefyd i ffermio cynaliadwy, hunangynhaliol.”*



Roedd cyfanswm y mewnwediadau ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n hyrwyddo'r cyfle hwn yn cynnwys:

ARGRAFFIADAU  
AR BOSTIADAU

**15,673**

CYRHAEDDIAD  
POSTIADAU

**14,964**

YMGYSYLLTIAD  
Â PHOSTIADAU

**924**

O ganlyniad i fideo gafodd ei gynhyrchu yn hyrwyddo'r cyfle hwn roedd Cyfanswm y Mewnwelediadau yn cynnwys:

ARGRAFFIADAU  
AR BOSTIADAU

**9,156**

CYRHAEDDIAD  
POSTIADAU

**4,560**

YMGYSYLLTIAD  
Â PHOSTIADAU

**397**

### Cyfle #776

Gogledd Sir Benfro  
263 ha / 650 erw  
2000 o ddefaid  
Llety posibl



### Cyfle #761

Y Drenewydd  
70 ha  
60 o ddefiad Miwl Cymreig  
Dim llety



### Cyfle #785

Gogledd Sir Fynwy  
75 ha / 185 erw  
28 o Wartheg Sugno Biff  
a'u lloi  
Dim llety



### Cyfle #848

Gogledd Sir Benfro  
111 ha / 274 erw  
500 o ddefaid  
Llety ar gael



### Cyfle #854

Gardd Farchnad  
Llanbister Road Powys  
2 ha / 4.94 erw  
Llety ar gael



### Cyfle #855

Aberdare / Merthyr Tydfil  
120 ha / 296 erw  
95 o Wartheg Duon Cymreig  
Pedigri sy'n magu



### Cyfle #798

Canolbarth Ceredigion  
83.9 ha / 200 erw  
90 o wartheg godro Holstein  
a'u lloi  
Llety posibl



### Cyfle #846

Gardd Farchnad  
Gower  
Erwau i'w cytuno  
Dim llety

